

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Mai 2021

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Dim.
2	DATGAN CYSYLLTIAD	<p>Gan eu bod yn llywodraethwyr ysgol, datganodd y Cyngorwyr Joan Butterfield, Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Tony Thomas, Emrys Wynne a Mark Young gysylltiad personol ag eitem 8 ar y rhaglen – Adroddiad Ariannol (Alldro Ariannol 2020/21) gan ei fod yn ymwneud â balansau ysgolion.</p> <p>Datganodd y Cyngorydd Gwyneth Kensler gysylltiad personol ag eitem 3 ar y rhaglen – Materion Brys: Cyllid Codi'r Gwastad ar gyfer Etholaeth De Clwyd gan ei bod yn Gadeirydd Grŵp Gweithredu Lleol Cadwyn Clwyd sydd wedi darparu cyllid ar gyfer y pedwar prosiect priffyrdd yn Llywodraeth.</p>
3	MATERION BRYG	<p>CYLLID CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH DE CLWYD</p> <p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Gyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd a'r Arweinydd, i gytuno ar gais i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar gyfer etholaeth De Clwyd. Bydd hyn yn cael ei wneud ar ôl trafod gydag Aelodau Lleol Dyffryn Dyfrdwy.</p>
4	COFNODION	<p>PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.</p>
5	FFRAMWAITH GWELLIANNAU ALLANOL AC ARBED YNNI AR GYFER TAI'R CYNGOR	<p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo defnyddio Fframwaith Gwelliannau Allanol ac Arbed Ynni ar gyfer Tai'r Cyngor i ddarparu'r gwelliannau angenrheidiol yn unol â chynllun busnes y stoc dai.</p>

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 25 Mai 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
6	FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW RHAGWEITHIOL AR GYFER YSGOLION AC EIDDO NAD YDYNT YN YSGOLION	PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo ail-dendro Fframwaith Cynnal a Chadw Rhagweithiol ar gyfer Ysgolion ac Eiddo nad ydynt yn Ysgolion i sicrhau bod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau gan ei gontractwyr cynnal a chadw.
7	ADRODDIAD ARIANNOL (SEFYLLFA ARIANNOL DERFYNOL 2020/21)	PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn – (a) nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2020/21; (b) cymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd a balansau wrth gefn fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3; a (c) nodi manylion y trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodwyd yn Atodiad 4.
8	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET	PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.